



Elusen | **WALES**
Ambiwlans | Air
Awyr | Ambulance
CYMRU | Charity

Ambiwlans Awyr Cymru
Wales Air Ambulance

Ty Elusen
Ffordd Angel
Llanelli Gate
Dafen
Llanelli
SA14 8LQ

Ffôn/Tel: 0300 0152 999
enquiries@walesairambulance.com

Dydd Gwener 23 Rhagfyr 2022

Y Cyngorydd Elwyn Jones
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd

Annwyl Cyngorydd Jones,

Diolch am eich llythyr, yn ddyddiedig 15fed o Dachwedd, ac am gymryd ar amser i ysgrifennu atom.

Yn gyntaf, hoffem gydnabod a diolch i'r Cyngor am eu geiriau caredig am yr Elusen. Gyda'i gilydd, dros yr un mlynedd ar hugain diwethaf mae ein cefnogwyr, gwirfoddolwyr, meddygon, peilotiaid, dyranwyr, gweithwyr Elusennol ac Ymddiriedolwyr wedi helpu i dyfu Ambiwlans Awyr Cymru i fod yn wasanaeth heddiw. Byddwn yn ddiolchgar am byth am hynny.

Hoffem hefyd ddiolch i'r Cyngorydd Dyfrig Siencyn, y Cyngorydd Dilwyn Morgan a'r Cyngorydd Llio Elenid Owen am roi eu hamser gwerthfawr i gwrdd â Phrif Weithredwr yr Elusen, Dr Sue Barnes, a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu Strategol ac Ymgysylltu, Steven Stokes, yn ddiweddar. Roedd hyn yn gyfle pwysig i drafod cymhlethdodau'r cynnig a'r broses craffu/ymgysylltu, yn ogystal â gwrandao ar y cwestiynau sy'n cael eu gofyn gan gymunedau ar draws Gwynedd.

O ran cynigion ad-drefnu'r gwasanaeth, mae ymchwil a dadansoddi manwl wedi'i gynnal gan ein partneriaid meddygol y GIG, Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (GCTMB), ac mae'n cynnwys modelu annibynnol. Mae'r Cynnig Datblygiad Gwasanaeth GCTMB sydd yn ganlyniad o hynny wedi'i gyflwyno i Ymddiriedolwyr Elusennau a Phwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys GIG Cymru (sydd yn cynnwys Prif Weithredwr pob bwrdd iechyd yng Nghymru a Phrif Weithredwr Gwasanaethau Ambiwlans Cymru).

I grynhoi, mae'r cynnig yn dangos, drwy ad-drefnu'r gwasanaeth ambiwlans awyr (adolygu lleoliadau sylfaenol, newid mewn oriau gweithredol, gwella hedfan ar ôl tywyllu), y gallai Ambiwlans Awyr Cymru fynychu cannoedd yn fwy o argyfyngau sydd yn bygwth i fywyd neu aelod bob blwyddyn a byddai pob sir yng Nghymru, yn cynnwys Gwynedd, yn gweld cynnydd yn nifer y cleifion sy'n ddifrifol o wael a fydd yn cael eu trin.

Wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr
Registered in England and Wales
Rhif Elusen/Charity Number: 1083645

www.ambiwlanawyrcymru.com
www.walesairambulance.com





Elusen | **WALES**
Ambiwlans | Air
Awyr | Ambulance
CYMRU | Charity

Ambiwlans Awyr Cymru
Wales Air Ambulance
Ty Elusen
Ffordd Angel
Llanelli Gate
Dafen
Llanelli
SA14 8LQ

Ffôn/Tel: 0300 0152 999
enquiries@walesairambulance.com

Gan fod y dadansoddiad wedi'i gynnal gan GCTMB, mae'r broses ymgysylltu yn cyd-fynd â llywodraethu'r GIG. Mae Cynnig Datblygiad Gwasanaeth GCTMB bellach yn destun i broses annibynnol o graffu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, dan arweiniad y Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwylans. Byddem yn eich annog yn gryf i ymgysylltu â phroses y Comisiynydd i gael dealltwriaeth fanwl o'r cynigion ac i godi unrhyw ymholiadau sydd gennych.

Gallwch ddysgu mwy ar - [Cynnig Datblygu Gwasanaeth - Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys \(gig.cymru\)](http://CynnigDatblyguGwasanaeth-PwyllgorGwasanaethauAmbiwlansBrys(gig.cymru)).

O safbwynt yr Elusen, rydym yn parhau i nodi'r sylwadau sydd yn cael eu cyfleu i ni a bydd hyn yn dylanwadu ein hymateb i broses ymgysylltu'r Comisiynydd. Felly, diolchaf ichi eto am gymryd yr amser i ysgrifennu atom.

Mae'r gefnogaeth ac rydym wedi derbyn gan bobl Gwynedd yn werthfawr i ni. Am hynny, rydym yn cynnig ein diolchgarwch tragwyddol, nid yn unig ar ran ein helusen ond hefyd y rhai sy'n fyw heddiw, diolch i haelioni eich Sir.

Rwy'n gobeithio ein bod yn gallu parhau, a chryfhau, ein perthynas gadarnhaol â chi a'r gymuned rydych chi'n ei chynrychioli.

Yn gywir

David Gilbert OBE
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Elusen Ambiwylans Awyr Cymru

Dr Sue Barnes
Prif Weithredwr
Elusen Ambiwylans Awyr Cymru

